**CFA06 Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Evidence from: Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae data cyfrifiad 2021 yn dangos bod y ganran o bobl 16–24 oed sy'n gallu siarad Cymraeg lawer yn is na'r ganran o blant 3–15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae angen sicrhau cyfleoedd ffurfiol mewn addysg a hyfforddiant i bobl ifanc sy'n gadael addysg statudol i gynnal a meithrin eu sgiliau Cymraeg. Mae bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog sydd ar gael i ddysgwyr, ac yn yr anogaeth a'r gefnogaeth i'w dilyn. Mae dysgwyr sydd ddim yn parhau ar lwybr Cymraeg neu ddwyieithog yn dueddol o golli hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ac erbyn cyrraedd y gweithlu yn teimlo nad ydynt yn gallu gweithio'n ddwyieithog. Mae hyn yn fwy amlwg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg lle mae llai o gyfleoedd yn y gymuned i arddel eu sgiliau Cymraeg.

Dylai Llywodraeth Cymru, Medr a'r awdurdodau lleol gydgynllunio er mwyn sicrhau bod llwybrau addysg di-dor i ddysgwyr yn yr ardaloedd hyn. Ond er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg. Mae'r Coleg yn cefnogi darpariaeth alwedigaethol ac addysg uwch mewn nifer o'r ardaloedd sydd dan sylw, ond mae penodi i swyddi addysgu galwedigaethol yn heriol. Mae cynlluniau uwchsgilio fel Cymraeg Gwaith yn helpu ond mae angen cynlluniau ehangach ar draws y sector er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o staff cymwys sydd yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym maes addysg bellach yn benodol, dylid gweithredu argymhellion adroddiad Dr Steve Bell ar addysg gychwynnol athrawon (**https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-05/tuag-at-weledigaeth-newydd--ar-gyfer-addysg-gychwynnol--athrawon-yn-y-sectorau-addysg-a--hyfforddiant-ol-orfodol-adolygiad.pdf** ).

Mae angen gweithlu ehangach i wasanaethu siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn hefyd, fel y gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith gydag unigolion sydd mewn swyddi sy'n gwasanaethu'r cyhoedd. Dylai Llywodraeth Cymru gynllunio pa sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr sector gyhoeddus yn yr ardaloedd hyn, a chydweithio â Medr i gynllunio pa addysg/hyfforddiant drydyddol Gymraeg a dwyieithog y dylid ei chynnig i ddiwallu'r angen hwn.

Mae rhai myfyrwyr AU wedi nodi bod cael llety prifysgol cyfrwng Cymraeg yn her mewn rhannau o Gymru, sy'n ei gwneud yn anoddach byw bywyd cyfrwng Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er mwyn cynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol, mae'r elfen gymdeithasol hon o'r ddarpariaeth yn hollbwysig, ochr yn ochr â'r ddarpariaeth academaidd.

- Anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg

Bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i annog y galw am addysg Gymraeg. Yn yr un modd, mae dyletswydd statudol ar Medr i annog y galw am addysg drydyddol Gymraeg. Mae hyn i'w groesawu.

Mae ymchwil ar newid ymddygiad myfyrwyr addysg uwch a gomisiynwyd gan y Coleg (heb ei gyhoeddi eto) yn tynnu sylw at garfan benodol o bobl ifanc sy'n cael eu dylanwadu gan eraill o'u cwmpas. Mae gan yr unigolion hyn ganfyddiad bod y Gymraeg ar gyfer math arbennig o berson ("rhywun arall ac nid fi") felly nid ydynt yn teimlo eu bod nhw a'u ffrindiau y math o bobl fyddai'n dewis astudio yn Gymraeg. Bydd y Coleg yn defnyddio dulliau marchnata penodol er mwyn dylanwadu ar ddewisiadau'r garfan hon.

Mae angen ymchwil pellach i ddeall pa fath o ymyraethau fyddai'n gallu annog unigolion fel hyn i ddefnyddio'u Cymraeg mewn cyd-destunau eraill.

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

O fewn y sector addysg drydyddol, dylid diogelu a chefnogi gofodau uniaith Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, i ddysgwyr 16 – 19 oed mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r gofodau uniaith Gymraeg i'w cael yn bennaf mewn chweched dosbarth ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'n allweddol cynnal y gofodau hyn.

Mae'n allweddol hefyd diogelu'r Gymraeg fel pwnc. Dylai pob person ifanc fedru dewis astudio'r Gymraeg i safon uchel, gan gynnwys mewn ardaloedd lle mae'r defnydd o'r iaith yn gyfyngedig. Nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd, wrth i rai canolfannau beidio cynnig Lefel A Cymraeg (Ail Iaith yn enwedig) oherwydd cyfyngiadau cyllidol.

Yn y colegau addysg bellach, yn ogystal â chynllunio'n strategol er mwyn cynyddu cyfleoedd dysgu ffurfiol, dylid ehangu'r cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddwyr sylfaenol barhau i ymwneud â'r Gymraeg. Gellid cefnogi'r Mentrau Iaith i gryfhau'r cyswllt rhwng pobl ifanc, eu cymuned a'r economi. Mae enghreifftiau o arfer da (e.e. cydweithio rhwng Menter Iaith Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro), a gellid adeiladu ar hyn drwy annog Mentrau Iaith ardaloedd penodol i ymgysylltu'n benodol gyda dysgwyr mewn colegau addysg bellach. Gallai hyn fod yn fodd o agor y drws i ddysgwyr ddefnyddio mwy o Gymraeg yn gymdeithasol ac i ymarfer y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle.

Mae cyfrifoldeb hefyd ar ddarparwyr addysg drydyddol i hybu'r Gymraeg. Ceir gofodau Cymraeg mewn nifer o golegau a phrifysgolion (e.e. Shwmaeronment Coleg Merthyr, Y Lle Prifysgol Caerdydd), yn ogystal ag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

O fewn addysg drydyddol, mae'r Coleg yn cyllido a chydlynu cynlluniau lle mae unigolion mewn cyd-destunau penodol yn hwyluso a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad. Er enghraifft:

- Hwyluswyr yn y colegau addysg bellach: unigolion mewn swyddi pwnc-benodol sydd yn darparu cymorth unigol neu i grwpiau bach i alluogi dysgwyr galwedigaethol i gwblhau rhywfaint o'u hastudiaethau yn Gymraeg. Eu nod yw helpu i godi hyder dysgwyr a sicrhau eu bod yn clywed y Gymraeg fel 'iaith fyw'.
- Swyddogion cangen mewn sefydliadau addysg uwch, sydd yn gyfrifol am gefnogi myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, trefnu gweithgareddau cymdeithasol a chynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr i astudio cyrsiau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynllun peilot animateurs iaith mewn dwy brifysgol, gan gynnwys Prifysgol Met Caerdydd. Mae'r animateurs yn gweithio'n agos gyda dysgwyr i'w hannog a'u cefnogi i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Llysgenhadon sydd yn hyrwyddo manteision astudio yn Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg ymhlith eu cyfoedion.
- Mae'r Coleg wedi sefydlu Rhwydwaith TAR Uwchradd eleni, er mwyn creu ymdeimlad o gymuned rhwng myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau TAR Uwchradd ble bynnag y bônt yng Nghymru. Gall nifer y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n astudio cwrs TAR mewn pwnc penodol mewn un prifysgol fod yn fach iawn; felly gall creu cyswllt rhwng myfyrwyr sy'n astudio TAR Ffiseg, er enghraifft, roi hyder a chyfleoedd i gyfathrebu yn Gymraeg i'r myfyrwyr hynny fyddai, fel arall, yn ynysig.

Mae'r cynlluniau uchod i gyd yn cael eu cynnal ar draws Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd lle mae'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn gyfyngedig.

Mae Cynllun Sbarduno y Coleg yn rhoi ffocws penodol ar hyrwyddo'r Gymraeg ymysg pobl ifanc Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Pwrpas y cynllun yw ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o siaradwyr Cymraeg i fagu hyder a datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth wneud penderfyniadau am y dyfodol. Mae mentoriaid yn cynnal pum sesiwn mentora ar-lein gyda phobl ifanc 16–19 oed.

Mae blynyddoedd cyntaf y cynllun wedi bod yn llwyddiannus, gyda'r bobl ifanc yn rhoi adborth cadarnhaol. Os yw unigolion sy'n dod o ardaloedd neu'n rhan o grŵp lle mae defnydd o'r iaith yn

gyfyngedig, rydym wedi gweld bod cael cyfle ychwanegol i ddefnyddio eu sgiliau tu allan i'r ystafell ddosbarth gyda mentor yn gallu cael effaith sylweddol ar eu hyder a'u parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg (https://colegcymraeg.ac.uk/tudalennau-a-y-cynnwys/cynllun-sbarduno/ ).

**4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?**

i. Gall adnoddau seiliedig ar rithrealiti, realiti estynedig, deallusrwydd artiffisial ayyb roi cyfle i ddysgwyr a hyfforddeion ymarfer defnyddio'u Cymraeg mewn amgylchedd 'diogel'. Er enghraifft, mae'r Coleg wedi comisiynu adnoddau hyfforddi iechyd seiliedig ar efelychu (SBET – Simulation-Based Education and Training) fel gall darpar weithwyr iechyd ymarfer defnyddio'u Cymraeg gyda chleifion, beth bynnag fo'u gallu; ac mae Fferm Ddiogel yn adnodd realiti estynedig sy'n helpu dysgwyr i nodi, deall ac osgoi peryglon posibl ar y fferm (https://www.porth.ac.uk/cy/collection/fferm-ddiogel ).

ii. Gall adnoddau digidol mwy traddodiadol fod yn gyfrwng i ddysgwyr a hyfforddeion fagu hyder hefyd, e.e. mae Prentis-iaith yn set o gyrsiau byr ar-lein a gomisiynwyd gan y Coleg ar gyfer prentisiaid mewn sectorau penodol, gyda'r nod o gynyddu hyder y prentis a'u galluogi i gwblhau rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg (https://www.porth.ac.uk/cy/group-collection/prentis-iaith ).

iii. Mae ymchwil academaidd ar y rhyngwyneb rhwng y Gymraeg a thechnoleg yn allweddol er mwyn archwilio tueddiadau ac adnabod arfer da i'w arddel ymhlith defnyddwyr y Gymraeg, ac i ddatblygu dulliau a thechnegau newydd ar gyfer dysgu a phrofi gallu yn y Gymraeg. Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill sicrhau cefnogaeth barhaus i ymchwil o'r math hwn. Enghraifft ddiweddar yw CorCenCC, sydd wedi arwain at greu offer i'w ddefnyddio wrth ddysgu a defnyddio'r Gymraeg (fel Y Tiwtiadur a TestunRhydd/FreeTxt). Mae'r Coleg ei hun yn cyllido ymchwil o'r math hwn hefyd, e.e. doethuriaeth Gwenno Griffith (2018) ar Newid Ymddygiad Ieithyddol: Cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio rhyngwynebau cyfrifadurol yn Gymraeg a doethuriaeth Beca Wyn Owen (ar y gweill) ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial o fewn addysg Gymraeg.

https://corcencc.org/

https://ytiwtiadur.corcencc.org/

https://freetxt.app/

https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/110345/

iv. Mae parhau i fuddsoddi mewn safoni terminoleg ar gyfer byd addysg a gwaith a hyrwyddo’r gwaith hwnnw, yn allweddol er mwyn cefnogi defnyddwyr ac addysgwyr y Gymraeg ar draws sectorau a meysydd pwnc.

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o’r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Gall digwyddiadau fel hyn gael effaith gadarnhaol ar agweddau staff a myfyrwyr tuag at y Gymraeg a rhoi ffocws i weithgareddau academaidd ac estyn allan. Er enghraifft, mae sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch wedi sôn wrthym am effeithiau cadarnhaol Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024 ac Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025:

- Coleg y Cymoedd: dywedodd aelod o staff rheoli – “O ran y staff a gymerodd ran drwy weithio ar y stondin, cynnal digwyddiadau, cefnogi digwyddiadau, mae eu hagweddau at y Gymraeg wedi'u trawsnewid yn llwyr. Mae nifer ohonynt wedi mynd ati i ddysgu'r Gymraeg. Mae'r myfyrwyr a fu'n cystadlu a fu'n gweithio ar y stondin wedi mwynhau cael y cyfle i ddefnyddio'u Cymraeg ac mae llawer wedi mynd ati i wirfoddoli ar gyfer digwyddiadau cyfrwng Cymraeg eraill.”

- Prifysgol De Cymru: dywedodd aelod o staff rheoli – “Darparwyd rhaglen lawn o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar stondin PDC ar y Maes, yn ogystal â chroesawu cannoedd o westeion i aros yn y neuaddau preswyl ar Gampws Trefforest, a chynnal digwyddiadau a theithiau o amgylch cyfleusterau’r Brifysgol ar gampysau Trefforest a Glyn-taf.

“Gyda dros 60 o gydweithwyr yn gwirfoddoli i weithio yn ystod yr wythnos, mwynhaodd ymwelwyr weithdai ac arddangosiadau gan ystod o feysydd pwnc, gan gynnwys Seicoleg, Chwaraeon, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Gofal Iechyd, Addysg, Ffasiwn, Ffilm, Ffotograffiaeth a llawer mwy, gyda chyfleoedd niferus i hybu’r ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg a gynigir gan PDC. Fe wnaeth cydweithwyr yn y tîm Arlwyo hefyd elwa o wersi Cymraeg, gan ddysgu ymadroddion cyffredin i'w defnyddio wrth ryngweithio â gwesteion yr Eisteddfod ar y campws. Darparwyd sesiynau anffurfiol i aelodau’r tîm dros ychydig o wythnosau, i ddatblygu eu hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg gyda chwsmeriaid.

"Rydym yn hynod falch o'r ymdrech ar y cyd i wneud yr Eisteddfod yn gymaint o lwyddiant. O’r camau datblygu cynnar, gweithiodd cydweithwyr o bob rhan o'r Brifysgol yn galed i sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth fel y gallem arddangos yr holl bethau sydd gan y Brifysgol i'w cynnig."

- Prifysgol Wrecsam: Prifysgol i gynnig cwrs byr am yr Eisteddfod mewn ymgais i gynnig cipolwg ar dreftadaeth Gymreig

(https://wrexham.ac.uk/cy/newyddion/erthyglau/prifysgol-i-gynnig-cwrs-byr-am-yr-eisteddfod-mewn-ymgais-i-gynnig-cipolwg-ar-dreftadaeth-gymreig/ )

**6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Gall cludiant amharu ar allu dysgwyr i gael mynediad at addysg Gymraeg. Dylid darparu cludiant am ddim i addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg fel rhan o ymrwymiad ehangach i ddarparu cludiant am ddim i addysg ôl-16 yn gyffredinol.

Dylid cydnabod amrywiaethau rhanbarthol wrth gynllunio. Er enghraifft, disgwyliwn y bydd cynllun cenedlaethol Medr ar gyfer y Gymraeg yn cael ei deilwra'n unol ag anghenion a sgiliau ieithyddol yr ardal, gyda disgwyliadau gwahanol ar gyfer darparwyr addysg drydyddol mewn ardaloedd lle mae nifer uwch o siaradwyr llai hyderus / is eu gallu.